


CYNNIG OEDOLION IFANC SY'N OFALWYR YNG NGHASNEWYDD

CEFNOGAETH I OEDOLION IFANC SY'N OFALWYR 16-25 OED

Mae oedolyn ifanc sy'n ofalwr yn helpu i ofalu am aelod o'r teulu sydd â salwch corfforol, anabledd neu sy'n cael trafferth gydag iechyd meddwl gwael neu gamddefnyddio sylweddau.

Beth mae gwasanaeth Oedolion Ifanc sy'n Ofalwyr yng Nghasnewydd yn ei gynnal?

- Cefnogaeth yn arbennig i chi
- Amser un-i-un gyda'ch gweithiwr prosiect Oedolion Ifanc sy'n Ofalwyr
- Grwpiau, gweithgareddau a thripiâu
- Cwrdd ag oedolion ifanc eraill sy'n ofalwyr
- Gwybodaeth a chyngor
- Gweithdai
- Cymorth gyda budd-daliadau, tai, mynd i addysg



Os hoffech chi wybod mwy neu gael rhagor o wybodaeth am atgyfeirio rhywun, sganiwch y cod QR i fynd i'r gwefan.



In partnership with

Credwch
mewn plant
Believe in
children



Barnardo's
Cymru



BETH MAE EIN HOEDOLION IFANC SY’N OFALWYR YN EI DDWEUD AM Y PROSIECT?

“Byddwch yn rhan o’r prosiect a chael y gefnogaeth gall Barnardo’s ei chynnig. Peidiwch â meddwl mai rhywbeth i rywun arall yw hyn, rydych chi’n ei haeddu!”

YAC (25 oed)



“Maen nhw’n rhoi cyfle i ni fynd allan a rhoi seibiant i ni o ofalu”.

YAC (16 oed)



“Mae bod yn rhan o’r prosiect Oedolion Ifanc sy’n Ofalwyr yn rhoi cyfle i chi wneud ffrindiau newydd. Mae’n hwyl ac weithiau rydyn ni’n cael bwyd am ddim!”

YAC (16 oed)



Y PROSIECT ‘BYWYD AR ÔL GOFALU’

Mae Bywyd ar ôl Gofalu yn brosiect newydd cyffrous ar gyfer Oedolion Ifanc sy’n Ofalwyr rhwng 16 a 25 oed sydd â rôl gofalu weithredol. Mae’r bobl ifanc eu hunain yn dylunio ac yn siapio’r prosiect i fod yn brosiect iddyn nhw eu hunain. Nod y prosiect yw sicrhau bod oedolion ifanc sy’n ofalwyr yn cael eu cynnwys yn ddigidol, hyrwyddo addysg uwch ac yn ymgyrchu dros hawliau gofaluwyr ifanc. Ei nod yw gwneud gofaluwyr ifanc yn fwy cyflogadwy drwy eu cael i addysg uwch, gwirfoddoli neu gyflogaeth. Mae’r prosiect hwn yn cael ei ariannu gan Gronfa Arloesi Campws Cyntaf ac mae ar waith Medi 2021—Mehefin 2022

Cysylltwch i gael rhagor o wybodaeth!

Ewch i : www.barnardos.org.uk/what-we-do/services/newport-young-carers-service

Dilynwch ni : @barnardos.newportyoungcarers

Cysylltwch â ni : banardosnewportservices@barnardos.org.uk

In partnership with

